**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Hybrid Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 9 Mawrth, 2023.**

**Yn bresennol**: Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd)
Cynghorydd Margaret M Roberts (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, A M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Llinos Medi, Euryn Morris, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Carwyn Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Pip O'Neill ac Alwen P Watkin

(2.00 o'r gloch yp - 3.55 o'r gloch yp)

---

| RHIF EITEM A PHWNC | **1. Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel cofnod cywir:<br>• 6 Rhagfyr, 2022<br>• 26 Ionawr, 2023 (Cyfarfod Arbennig) |

| RHIF EITEM A PHWNC | **2. Datganiadau o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu’r Prif Swyddogion ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 13 – Datganiad Polisi Tâl 2023 ac fe wnaethant adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais ddilynol. |

| RHIF EITEM A PHWNC | **4. Cyflwyno Deisebau** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyiwyd unrhyw ddeisebau. |

| RHIF EITEM A PHWNC | **5. Rhybudd o gynigiad yn unol â Rheol 4.1.13.1 o’r Cyfansoddiad** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cafodd y Cynnig ei basio |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **6. Rhyddhau Balansau'r Cyngor i ariannu costau cyflogau ychwanegol mewn ysgolion.** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD rhyddhau £1.073,635 o'r balansau cyffredinol er mwyn ariannu'r costau ychwanegol a wynebir gan ysgolion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **7. Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2022/23** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **derbyn yr Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2022/23.**<br>• **Cymeradwyo'r newid yn y terfyn gwrthbarti i awdurdodau lleol eraill yn unol ag adran 5.3** |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **8. Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24.** |
| RHIF EITEM A PHWNC | **9. Strategaeth Cyfalaf** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn y Strategaeth Gyfalaf.** |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **10. Cyllideb 2023/24** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/2024.**<br>• **Derbyn y Datrysiad ar y Dreth Gyngor drafft fel y nodwyd yn (C) ar yr agenda.** |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **11. Rhannu Swyddi ar y Pwyllgor Gwaith** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cytuno i'r newidiadau Cyfansoddiadol er mwyn:-**<br><br>• **Caniatáu i un neu ragor o aelodau rannu swydd fel arweinydd, dirprwy arweinydd ac fel aelodau portffolio o'r Pwyllgor Gwaith;**<br>• **Caniatáu i'r uchafswm o aelodau a ganiateir ar y Pwyllgor Gwaith gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchafswm** |

| | |
|---|---|
| | statudol pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd; a<br>• Nodi'r trefniadau mewn perthynas â chworwm a phleidleisio pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd;<br><br>(a) yn unol â'r geiriad yn Atodiad 1 yn yr adroddiad,<br><br>(b) unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.<br><br>Os bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau rhannu swydd a / neu nifer yr unigolion sy'n derbyn cyflog uwch o ganlyniad i'r trefniadau rhannu swydd, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i hynny ar unwaith. |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **12. Cynllun y Cyngor 2023-2028** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028.** |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **13. Datganiad Polisi Tâl 2023** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau Datganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2023.** |

| | |
|---|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | **14. Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.<br>• I ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y<br>• Cyd a sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ac i ddirprwyo i'r Swyddog<br>• Monitro yr hawl i weithredu'r newidiadau yna. |